# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 30 Tachwedd 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Vice-Chair), Cheryl Williams and Huw Williams (Chair)

Roedd y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Economi a Llywodraethu Corfforaethol yn bresennol ar gais y Pwyllgor ar gyfer eitem rhif 5 ar yr agenda .

**Sylwedyddion** – Y Cynghorwyr Martyn Holland, Alan James, Brian Jones, Arwel Roberts, Peter Scott, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ), Prif Beiriannydd Rheoli Traffig (PL); Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau (PMc), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddydd y Pwyllgor (KEJ)

## CROESO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Meirick Davies oedd yn aelod newydd o'r Pwyllgor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2017.

**Materion yn Codi -** Tudalen 11 Eitem 6 Rhaglen Waith Archwilio, ail bwynt bwled – Dywedodd y Cydlynydd Archwilio fod y wybodaeth yr holodd y Pwyllgor amdano ar

gynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif wedi ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 18 Gorffennaf 2017 ac wedi ei ailgynhyrchu ym mriff gwybodaeth y Pwyllgor er hwylustod.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2017 fel cofnod cywir.*

**5 ARWYDDION CYFEIRIAD I DWRISTIAID AR GYFER DYFFRYN CLWYD**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ar Y Ffyrdd (a gylchredwyd eisoes) oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y prosiect i ddatblygu cynllun arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar gyfer Dyffryn Clwyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion am y broses ymgeisio oedd yn rhaid ei dilyn er mwyn ymgeisio am arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar rwydwaith y cefnffyrdd yn gyffredinol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chael caniatâd i osod arwyddion twristaidd 'brown' ar ochr cefnffordd. Roedd natur gymhleth y broses yn amharu ar uchelgais y Cyngor o ddatblygu economi dwristiaeth leol, pwynt oedd wedi ei godi mewn Cynhadledd Rheoli Cyrchfan ddiweddar yn y sir, a neges sydd wedi ei gyflwyno i Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio ar gyfer arwyddion ar gefnffyrdd, yn arbennig y meini prawf cymhwyso llym y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn gallu ymgeisio i godi arwydd gwybodaeth i dwristiaid ar y gefnffordd, roedd y Cyngor yn ddiolchgar i'r Aelod Cynulliad (AC) am sefydlu gweithgor er mwyn dyfeisio ffordd arloesol o alluogi ardaloedd gwledig, fel Dyffryn Clwyd, i fodloni'r meini prawf angenrheidiol. Roedd manylion am sut roedd y meini prawf wedi eu bodloni yn yr adroddiad. Credwyd mai'r dull gweithredu a gymerwyd, oedd yn cynnwys 'grwpio' nifer o safleoedd i dwristiaid unigol gyda'i gilydd, oedd yr esiampl gyntaf o'r fath yn unrhyw le yng Nghymru gyda'r bwriad o fodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer arwyddion i dwristiaid. Roedd y gwaith wedi golygu cryn ymdrech ar ran yr holl bartneriaid, gan gynnwys cynghorau dinas a threfi, Esgobaeth Llanelwy, Cadw, Cyngor Sir Ddinbych a'r AC. Tra roedd y costau, fel y manylir yn yr adroddiad ac fel yr adroddwyd yn y wasg, yn ymddangos yn ddrud ac yn achosi pryder, roeddynt yn amcangyfrif gofalus o'r holl gostau cysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys cost yr arwyddion, gwaith diogelwch a chau'r gefnffordd ayb. Dywedodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd, gan fod amcangyfrif o 36,000 o dripiau'r diwrnod yn cael eu gwneud ar hyd rhan Llanelwy o'r A55, roedd gan yr arwyddion arfaethedig y potensial i amlygu safleoedd twristaidd y Dyffryn i gynulleidfa estynedig, a thra byddai'r rheiny oedd yn teithio ar y gefnffordd eisoes wedi penderfynu ar eu cyrchfannau ar gyfer y diwrnod penodol hwnnw, byddai gweld arwyddion tuag at Ddyffryn Clwyd ar ochr y ffordd o bosib yn eu hatynnu yn ôl ar ddyddiad arall er mwyn archwilio'r ardal ymhellach. Gallai hyn o bosib gynrychioli budd cyfrannol i gael budd o'r arwyddion newydd, ac un y byddai'n rhaid manteisio arno, er mwyn sicrhau fod twristiaid yn ymwybodol o lefydd diddorol i ymweld â nhw yn y sir, ar ôl iddynt gael eu cyfeirio oddi ar y cefnffyrdd. Unwaith byddai'r arwyddion twristiaeth ar y gefnffordd wedi eu sicrhau, byddai'n bwysig datblygu strategaeth arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar gyfer y sir gyfan er mwyn cael y manteision mwyaf posib gan y rheiny fyddai'n ymweld â'r sir. Cadarnhaodd

yr Arweinydd Tîm - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor, oedd yn bresennol, fod gan yr 'arwyddion Twristiaeth brown' y potensial i ddod â phobl oddi ar y cefnffyrdd i ymweld ag ardaloedd eraill gerllaw. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi lansio prosiect 10 mlynedd newydd o'r enw 'Ffordd Cymru', a'i bwrpas yw amlygu trysorau cudd y wlad. Bydd datblygu strategaeth arwyddion cyfeiriad i dwristiaid sirol a fyddai'n cysylltu â'r arwyddion i dwristiaid ar y cefnffyrdd yn cefnogi gweledigaeth 'Ffordd Cymru' yn Sir Ddinbych.

Bu'r Arweinydd, y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd, yr Uwch Swyddog Peirianneg Rheoli Traffig a'r Arweinydd Tîm (Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau) yn ateb cwestiynau aelodau ac yn:

- egluro'r rhesymau pam fod traethau ac atyniadau twristaidd Y Rhyl a Phrestatyn wedi eu harwyddo oddi ar wahanol gyffyrdd yr A55;
- pwysleisio fod trigolion Dyserth yn poeni am faint o draffig sy'n teithio drwy'r pentref ar hyn o bryd ac egluro bod peth gwaith ffordd wedi ei gynllunio ar gyfer y pentref er mwyn ceisio lliniaru pwysau cyfredol;
- cynghori y byddai angen gosod arwyddion addas yn agos at yr allanfa agosaf ar y gefnffordd ar gyfer y Ganolfan Ddyfrol a'r adnoddau newydd eraill sydd yn yr arfaeth ar gyfer y Rhyl pan fyddant wedi agor. Roedd angen ystyriaeth o ran cyllido'r arwyddion hyn nawr;
- cadarnhau er bod amcangyfrif o'r costau ar gyfer prosiect arwyddion Dyffryn Clwyd i'w weld yn arbennig o uchel o'i gymharu â'r costau mynegol o £5,000 i £20,000 fel y nodir yn nogfen ganllaw LlC Awst 2013 'Arwyddion Traffig ar gyfer Cyrchfannau Twristiaeth ar Gefnffyrdd a Thraffyrdd yng Nghymru', roeddynt o'r farn bod yr amcangyfrif o gost yn yr adroddiad yn weddol gywir. Roedd y gost yn seiliedig ar faint yr arwyddion angenrheidiol a'r peirianneg sifil, y rheolaeth traffig a'r gwaith cau ffyrdd angenrheidiol cysylltiedig;
- byddai angen i'r arwyddion twristiaeth arfaethedig ar gyfer Dyffryn Conwy fod yn fawr gan y byddent yn tynnu sylw at dri atyniad gwahanol ar arwydd unigol (Cestyll Dinbych a Rhuddlan a Chadeirlan Llanelwy) ac yn hawdd i'w ddarllen o bellter. Byddai'r prosiect felly yn golygu codi 4 arwydd mawr i dwristiaid ger yr A55, arwyddion eraill ar y ffyrdd ymuno ac ymadael, ac ymhellach ar hyd y rhwydwaith briffyrdd i arwain y traffig i'w cyrchfan o ddewis;
- cadarnhau fod y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gadw achosion o gau ffyrdd yn isel a chostau rheoli traffig yn isel wrth godi'r arwyddion, drwy geisio gwneud y gwaith pan fydd ffyrdd yn cael eu cau / traffig yn cael ei reoli ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi ei gynllunio. Fodd bynnag, nid oedd y math hwn o gydlynu gwaith yn bosib gan amlaf mewn gwirionedd;
- cynghori fod y Gweithgor a sefydlwyd er mwyn dwyn y prosiect hwn i ffrwyth wedi ei gytuno ar y ddealltwriaeth y byddai'r cynghorau dinas / trefi perthnasol a gweithredwyr safleoedd twristaidd yn talu am y prosiect. Byddai cyfraniad y Cyngor Sir o oddeutu £23,000 yn seiliedig ar gostau datblygu'r cynllun, costau dylunio, gweinyddol a goruchwylio contractwyr;
- cadarnhau y byddai swyddogion yn fodlon gwneud ymholiadau gyda Croeso Cymru er mwyn gweld os oedd unrhyw ffynonellau cyllid y gellid eu defnyddio tuag at gost arwyddion i dwristiaid ar gyfer Dyffryn Clwyd.
- cynghori mai'r cam nesaf yn y prosiect, unwaith y byddai cefnogaeth wedi ei gael mewn egwyddor, fyddai ail alw'r Gweithgor er mwyn mynd ymlaen â'r

gwaith, a fyddai'n cynnwys sicrhau'r cyllid angenrheidiol er mwyn cyflawni'r prosiect i gyd;

- cynghori fod rhwystrau bob amser yn cael eu codi o flaen arwyddion cefnffordd er mwyn gwarchod gyrwyr a theithwyr pe byddai gwrthdrawiad traffig ffyrdd yn agos at arwyddion. Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor Sir fyddai â'r cyfrifoldeb dros wneud gwaith cynnal a chadw arwyddion y gefnffordd, ac roeddynt yn derbyn cyllideb gan Adran Gludiant LlC yn benodol ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar gefnffyrdd. Yn y man cyntaf byddai unrhyw ddifrod i arwyddion ar gefnffyrdd oherwydd damweiniau ffordd yn cael ei godi ar gwmni yswiriant perchennog y car;
- cadarnhau y byddai'n bwysig i'r tri atyniad a fyddai'n cael eu rhestru ar arwyddion i dwristiaid Dyffryn Clwyd ystyried yn ofalus pa gynnig fyddai ganddynt i dwristiaid a fyddai'n ymweld â'r safleoedd hynny. Mae'n bosib y gallai Tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor eu cynorthwyo drwy'r cynllun Llysgennad Twristiaeth o ran hyrwyddo eu cynnig;
- disgrifio sut byddai twristiaid yn cael eu cyfeirio at yr atyniadau i dwristiaid unigol ar yr arwydd cefnffordd unwaith y byddent wedi gadel y gefnffordd a chyrraedd rhwydwaith priffyrdd y sir;
- cadarnhau fod parcio digonol ar gyfer pob atyniad sydd wedi ei arwyddo yn cael ei gyfrifo ar sail adnoddau parcio yn yr atyniad ei hun ac agosrwydd a chapasiti meysydd parcio gerllaw;
- cynghori lle mae safleoedd twristaidd yn agos at ffiniau sir neu ffiniau cenedlaethol byddai swyddogion yn cydweithio gyda siroedd perthnasol ac awdurdodau rhwydwaith ffyrdd o ran gofynion yr arwyddion;
- cadarnhau mai LlC sy'n penderfynu ar ofynion diogelwch o ran codi arwyddion ar gefnffyrdd, tra mai'r awdurdod lleol sy'n penderfynu ar yr anghenion o ran rhwydwaith y briffordd leol.
- cadarnhau y disgwylid y byddai'r arwyddion yn eu lle erbyn 2019 os gellir sicrhau'r cyllid angenrheidiol a'r gymeradwyaeth derfynol ar y dyluniad a'r fanyleb gan Lywodraeth Cymru;
- cytuno gydag aelodau y byddai angen gweithio i sicrhau bod gweddill y sir, ac yn benodol busnesau lleol, yn cael budd yn y dyfodol gan dwristiaid sy'n cael eu denu oddi ar y gefnffordd gan yr arwyddion twristaidd. Tra bo canllawiau LlC yn nodi mai dim ond atyniadau i dwristiaid sydd o fewn 10 milltir i gefnffordd y gellir eu harwyddo o'r gefnffordd, doedd dim byd yn atal y Cyngor rhag hyrwyddo safleoedd eraill o ddiddordeb unwaith bydd y twristiaid wedi gyrru ar eu rhwydwaith briffyrdd, er enghraifft roedd gan Gyngor Sir y Fflint Arwyddion 'Taith' Hamdden Sir y Fflint eu hunain oedd yn cyfeirio ymwelwyr at bob rhan o'r sir. Mewn ardaloedd eraill defnyddiwyd symbolau hawdd eu hadnabod i nodi lleoedd o ddiddordeb neu wasanaethau oedd ar gael. Byddai datblygu strategaeth dwristiaeth fewnol yn y sir o fudd i nifer o fusnesau bach yn yr ardal ac yn cefnogi datblygiad yr economi leol. Gellir casglu barn Cynghorau Tref a Chymuned, busnesau twristiaeth a rhanddeiliaid eraill ar ddarparu arwyddion twristiaeth sirol fel rhan o ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth sirol;
- cytuno fod angen gwneud cysylltiadau rhwng awdurdodau priffyrdd a chwmnïau llywio â lloeren er mwyn sicrhau fod llwybrau a nodir fel llwybrau i dwristiaid yn cael eu hadlewyrchu yn gywir ar systemau llywio â lloeren er mwyn sicrhau fod dulliau llywio yn cyd-fynd â'i gilydd yn hytrach nag yn gwrthddweud ei gilydd Gallai'r gwaith hwn gael ei wneud fel rhan o brosiect Strategaeth Rheoli Cyrchfan.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben rhoddodd swyddogion fanylion y gost sy'n gysylltiedig â'r prosiect i aelodau.

Yn dilyn trafodaeth fanwl iawn roedd aelodau o'r farn y dylai'r cyngor sir roi cychwyn ar y gwaith o gysylltu'r arwyddion twristiaeth cefnffyrdd arfaethedig i bolisi arwyddion twristiaeth sirol drwy ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth gyson a fyddai'n helpu i ddenu ymwelwyr unwaith y byddent wedi ymadael â'r gefnffordd er mwyn ymweld â lleoliadau eraill yn ac o amgylch Sir Ddinbych.

***PENDERFYNODD*** *y Pwyllgor yn amodol ar y sylwadau uchod -*

(a) *dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran prosiect arwyddion cyfeirio twristiaid Dyffryn Clwyd;*

(b) *cydnabod meini prawf cymhwyso Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu arwyddion twristiaeth brown ar gefnffyrdd;*

(c) *argymell fod y Gweithgor a sefydlwyd gan yr Aelod Cynulliad lleol yn cael ei ail alw er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith o ddarparu Prosiect Arwyddion Cyfeirio i Dwristiaid Dyffryn Clwyd a chael gafael ar y cyllid angenrheidiol i'w ddwyn i ffrwyth, a bod adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar gynnydd y prosiect yn cael ei gylchredeg i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2018;*

(d) *bod gweithgor swyddog ac aelod etholedig yn cael ei sefydlu er mwyn datblygu strategaeth arwyddion twristiaeth gyson ar gyfer Sir Ddinbych i gyd fynd â'r arwyddion i dwristiaid ar y gefnffordd, a bod cylch gorchwyl y gweithgor hwn yn cynnwys nodi ffynonellau cyllid posib ar gyfer yr arwyddion twristiaeth, a*

(e) *bod y Grŵp hwnnw yn adrodd ar ei gynnydd wrth y Pwyllgor mewn cyfarfod yng ngwanwyn 2018.*

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- byddai adroddiad ar gynllun y Cyngor ar gyfer hen safleoedd ysgolion ac unrhyw safleoedd gwag eraill fel y gofynnwyd amdano yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yn eu cyfarfod nesaf ar 18 Ionawr 2018.
- Byddai swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor fel sylwedyddion, fel rhan o'u gwaith maes ar yr astudiaeth 'Parod at y dyfodol' yn archwilio sut mae darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithio ar archwilio, a byddent hefyd yn cwrdd Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Grwpiau Archwilio / Craffu ac aelodau eraill fel rhan o'r broses honno. Byddent hefyd yn asesu cynnydd yn erbyn y cynllun

gweithredu a luniwyd wedi eu hastudiaeth gwelliant flaenorol yn 2014 / 15 ar ‘Craffu Da'? Cwestiwn Da!’

- roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wedi cyfeirio mater at archwilio o ran darganfyddiadau Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar yr ymchwiliad i ddigwyddiad llifogydd yn haf 2017 yn Y Rhyl, Rhuddlan a Phrestatyn, oedd wedi ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor o dan faterion i’w hystyried yn y dyfodol.
- cytunodd aelodau i wahodd yr Aelodau Arweiniol perthnasol o’r Cabinet i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ac i drefnu sesiwn briffio rhag-gyfarfod o flaen llaw.
- cyfeiriwyd at y ffaith fod y Pwyllgor yn ddiweddar wedi archwilio’r cynllun codi tâl ar ddeiliaid ‘bathodyn glas’ ar gyfer parcio ym meysydd parcio’r cyngor a chadarnhawyd fod barn y Pwyllgor wedi ei ystyried fel rhan o broses penderfyniad wedi’i ddirprwyo gyda'r nod o gyflwyno awr ychwanegol am yr un pris â defnyddwyr eraill. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai’n sicrhau fod aelodau yn cael gwybod unwaith byddai’r penderfyniad wedi’i ddirprwyo yn cael ei weithredu.
- byddai’r adroddiadau yr holodd y Pwyllgor amdanynt o dan yr eitem flaenorol ar yr agenda yn cael eu cynnwys o fewn y rhaglen waith ac yn cael eu gweithredu fel bo'n addas.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo’r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y caiff ei manylu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Roedd y Cadeirydd wedi methu mynychu’r Her Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd diweddar a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod wedi cymryd yr her fel y cyn Bennaeth Gwasanaeth ac ni chodwyd unrhyw fater mawr. Dywedwyd wrth Aelodau y byddai nodiadau'r Her Gwasanaeth yn cael eu cylchredeg ym mriff gwybodaeth y Pwyllgor yn y dull arferol. Roedd nodiadau Her Gwasanaeth Gwelliant Busnes a Moderneiddio a Chwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata a gynhaliwyd fis Hydref wedi eu cynnwys ym mriff gwybodaeth diweddaraf y Pwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Glenn Swingler fod mwy o waith wedi ei wneud ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ers ei adroddiad diwethaf ar gyfarfod Her Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata. Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd cael eu cynrychioli ar gyfarfodydd Her Gwasanaeth ac fe'u cynghorwyd y gellid symud unrhyw faterion a nodwyd gan aelodau o fewn y nodiadau ar gyfer archwilio pellach ymlaen yn y dull arferol wedi cwblhau ffurflen cynnig aelod.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi’r adroddiadau ar lafar.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.